


Beibl i Blant yn cyflwyno

Y Samariad Caredig



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen; Sarah S.



Stori 46 o 60

www.M1914.org


Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh



"Rwyf i garu Duw
a dy gymydog," meddai'r
dyn. "Ond pwy ydy fy
nghymydog i?"
gofynnodd.




3

Er mwyn ateb cwestiwn y dyn, dywedodd Iesu stori
am ddyn yn teithio ar hyd y ffordd
o Jerwsalem i Jericho.
Dyma ladron yn
ymosod arno.



4

Dyma nhw'n dwyn popeth oddi arno, hyd yn oed
ei ddillad! Dyma nhw'n ei guro a'i adael yn
hanner marw ar ochr y ffordd.



8

5


Roedd offeiriad yn digwydd pasio
heibio. Siawns na fyddai e'n
rhoi help i'r dyn
druan. Na!



8

6


Pan welodd fod y dyn yn gwaedu,
croesodd i ochr arall y
ffordd a cherdded
yn ei flaen.



8

7


Cyn hir dyma glywed sŵn traed, a daeth person
arall heibio - Lefiad oedd yno. Ei waith oedd
helpu'r offeiriaid yn y deml.




8

8


Aeth at y dyn druan ac edrych arno, cyn cerdded i ffwrdd heb ei helpu.




Yn olaf, daeth dyn o Samaria heibio. Roedd yr Iddewon yn casáu pobl Samaria.





Byddai'r bobl oedd yn gwranddo ar Iesu ddim yn disgwyl i'r dyn o Samaria ymddwyn fel arwr. Ond dyma'r dyn yn aros i helpu.



Penliniodd y Samariad wrth ochr y dyn a rhoi cadachau ac eli ar friwiau'r dyn dieithr. Yna rhoddodd help i'r dyn druan fynd ar gefn ei ful.




Wedi cyrraedd gwesty ar ochr ffordd, gofalodd y Samariad am y dyn drwy'r nos.




Yn y bore, rhoddodd arian i berchennog y gwesty a gofyn iddo ofalu am y teithiwr nes ei fod wedi gwella.



Dyna ddiwedd y stori. Gofynnodd Iesu, "Pwy fu'n gymydog i'r dyn oedd wedi ei anafu?"



15



Atebodd y Cyfreithiwr, "Y dyn o Samaria oedd y cymydog, yr un wnaeth ei helpu."

16

"Dos dithau a gwna'r un fath." Mae pawb sydd mewn angen yn gymydog i ni.



17

Mae rhoi help i bobl sydd mewn angen yn ffordd o ddangos cariad. Mae hynny'n plesio Duw.



18

Y Samariad Caredig
Stori o Air Duw, y Beibl
sydd i'w gweld yn
Luc 10

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosod fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!

